



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad Craffu ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft, gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn unol ag Atodlen 1, Rhan 1, Adran 3(3) o Ddeddf Pysgodfeydd 2020, rhaid i awdurdod polisi pysgodfeydd (Gweinidogion Cymru) osod gerbron y ddeddfwrfa briodol ddatganiad yn amlinellu ei ymateb i benderfyniad neu argymhelliad a wnaed gan gorff deddfwriaethol priodol neu bwyllgor deddfwriaethol priodol.

Rwy'n croesawu adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar [Craffu ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd Drafft](#) a'r argymhellion ynddo. Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 25 Mai, cafodd eich argymhellion eu hystyried wrth i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft gael ei adolygu ar gyfer ei gyhoeddi. Gwnaed hyn ochr yn ochr ag adroddiadau deddfwrfeydd eraill y DU ac ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r [Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd](#) wedi cael ei gyhoeddi heddiw, ynghyd ag [Ymateb y Llywodraeth](#) i'r ymgynghoriad ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd Drafft.

Rwy'n ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU i sicrhau bod targedau uchelgeisiol a phenodol yn cael eu cynnwys yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, gan y bydd hynny yn galluogi cynlluniau gweithredu i gael eu datblygu. Dylai'r targedau gael eu cyd-ddatblygu gyda rhanddeiliaid, yn enwedig sector pysgodfeydd Cymru, a dylid eu dylunio i hybu twf y sector mewn ffordd gynaliadwy.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Yn gynharach eleni, sefydlais Grŵp Cynghori Gweinidogion ar gyfer Pysgodfeydd Cymru (MAGWF). Hoffwn osod cyfeiriad clir ar gyfer ein pysgodfeydd yng Nghymru, ac rwy'n cytuno bod angen gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ddatblygu polisiâu i gefnogi sector pysgodfeydd Cymru i dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) yn ddogfen bolisi strategol, wedi'i datblygu gyda phedwar awdurdod polisi pysgodfeydd y DU. Mae'n amlinellu'r fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer darparu pysgodfeydd cynaliadwy o'r radd flaenaf ledled y DU, o fewn cyd-destun y setliadau datganoli. Ers y craffu gan y Pwyllgor, ac mewn ymateb i ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus (fel y nodwyd yn Ymateb y Llywodraeth), mae uchelgais cyffredinol y JFS wedi cael ei atgyfnerthu i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o reoli pysgodfeydd o ran polisi a strategaeth, gan gynnwys integreiddio gwell rhwng iechyd stociau pysgod, ecosystem ehangach y môr a diwydiant pysgota cadarn".

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru, yn unol â'r argymhelliad hwn, weithio gyda gwledydd eraill y DU i ystyried lle y gellid cynnwys targedau uchelgeisiol a phenodol yn y JFS. Barn yr Awdurdodau Polisi Pysgota oedd na fyddai'n ymarferol, nac yn adlewyrchu'r ffaith bod pysgodfeydd wedi cael eu datganoli, pe baem yn amlinellu targedau penodol yn y JFS sydd i raddau helaeth yn fater ar gyfer Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd unigol.

Mae'r Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd hefyd yn nodi yn ymateb y Llywodraeth 'na fyddai'n briodol rhoi targedau ac iddynt amserlen gaeth ar gyfer polisiâu o fewn y JFS, o ystyried yr angen i weithio gyda rhanddeiliaid a'r diwydiant mewn modd teg, casglu tystiolaeth fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu polisiâu ac o bosibl datblygu technoleg neu addasu offer ac arloesi ym maes dylunio offer (lle bod hynny yn briodol ac yn angenrheidiol). Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud mewn modd amserol, gyda gwaith ar lawer o feysydd polisi sylfaenol y JFS a'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd eisoes yn mynd rhagddo. Bydd yr Awdurdodau Rheoli Pysgodfeydd, lle bo hynny'n briodol, yn rhoi rhagor o fanylion, a bydd yr angen am fesurau penodol, ac iddynt amserlen gaeth, yn cael eu pennu ar y cyd â rhanddeiliaid".

Argymhelliad 2

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau casglu data yn ddigon cynhwysfawr i fonitro poblogaethau ac iechyd ystod ehangach o rywogaethau/stociau pysgod na'r rhai sy'n cyfrif am fwyafrif y dalfeydd pysgota cyfredol yn unig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae pysgodfeydd yn gymhwysedd sydd wedi cael ei ddatganoli; fodd bynnag, fel y nodir yn ein dull partneriaeth sylfaenol, bydd yr Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd yn parhau i weithio

gyda'i gilydd i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen. Mae polisïau ar weithio ar y cyd mewn perthynas â gwyddoniaeth a thystiolaeth yn y JFS yn darparu manteision ar gyfer y DU gyfan, gan helpu pob Awdurdod Polisi Pysgodfeydd i ddiwallu ei anghenion ynghylch casglu data a cyngor gwyddonol, wrth hefyd helpu'r DU i gyflawni eu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd bellach yn dweud "Bydd y sylfaen dystiolaeth yn cael ei chynnal a'i gwella i gefnogi'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd, gan gynnwys cynaliadwyedd, newid hinsawdd, sgil-ddalfeydd, a dull o weithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys gwella ein dealltwriaeth gyfunol o effaith pysgota a dyframaethu ar yr amgylchedd morol a chwilio am ffyrdd i asesu effeithiau ehangach pysgota ar rywogaethau anfasnachol".

Bydd gwella'r ffordd rydym yn casglu data yn hanfodol er mwyn rheoli ein pysgodfeydd yn y dyfodol, ac rydym wedi ymrwymo i wneud gwelliannau pan fydd angen.

Byddwn yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i gydgyssylltu ein gwaith casglu data, wrth gynnal ein ffocws ar y sylfaen dystiolaeth ac anghenion data penodol pysgodfeydd ac amgylchedd morol Cymru.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu talu costau'r rhaglen casglu data gydgyssylltiedig, yn enwedig y cymorth ariannol a fydd yn cael ei gynnig i sector pysgodfeydd Cymru i gefnogi ei rôl o ran casglu mwy o ddata.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Cynllun Gwaith y DU 2022 yn rhwymo Cymru i weithio'n agos gyda'r Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd eraill er mwyn parhau i fonitro stociau o ddi-ddordeb a gwneud gwelliannau i'r sylfaen dystiolaeth lle bo modd. Yng Nghymru byddwn yn canolbwyntio ar cynnal arolygon stoc er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o reoli rywogaethau allweddol yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio a chyllid ehangach sydd ar gael gan y DU er mwyn llenwi'r bylchau tystiolaeth a nodwyd ac i gefnogi datblygu polisïau yn y dyfodol.

Byddwn yn sicrhau bod ein cyllid yn y dyfodol yn ategu'r cyfeiriad a amlinellir yn y JFS, gan gynnwys meysydd fel casglu tystiolaeth. Rydym am annog a chynyddu cymaint ag y bo modd y manteision y gellir eu sicrhau drwy gasglu data mewn modd cydweithredol. Cafodd Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 eu gosod ar 15 Rhagfyr. Bydd hyn yn ein galluogi i agor cynllun cymorth ariannol ar gyfer y sector morol, bysgodfeydd a dyframaethu ym mis Rhagfyr.

Roedd yn dda gennyf weld y systemau monitro cychod a gafodd eu cyflwyno yn gynharach eleni, a'r manteision y byddant yn eu darparu, yn cael eu cydnabod yn eich adroddiad. Er mwyn helpu'r diwydiant pysgota i fodloni'r gofyniad hwn, cafodd dyfeisiau monitro cychod eu cynnig i fflyd bysgota Cymru yn rhad ac am ddim. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i wella'r ffordd mae data ar weithgareddau pysgota'n cael ei gasglu, ac yn 2020 cafodd ap ffôn symudol ei gyflwyno ar gyfer y diwydiant pysgota, ar gyfer cychod o dan 10m, fel y gallent adrodd ar yr hyn maent wedi'i ddal. Mae'r gweithgareddau pysgota y mae'r ddwy system newydd hyn yn berthnasol iddynt yn cyfrif am dros 90% o fflyd pysgota masnachol Cymru, ac maent yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ddal, lle mae pysgota'n cael ei gynnal a maint yr ymdrech bysgota, gan ddarparu manteision sylweddol i'r gwaith o reoli'r amgylchedd morol.

Mae llawer o'n gwaith casglu data a rhaglenni casglu tystiolaeth yn cynnwys gweithio gyda sector pysgodfeydd Cymru (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys y gwaith gwyddonol a gynhaliwyd ar diwna asgell las yn nyfroedd Cymru a'r asesiad blynyddol o stociau cregyn moch); mae'r pysgotwyr hyn o Gymru yn dod â chryn arbenigedd a gwybodaeth leol i'r broses casglu data, ac yn gwella ansawdd sylfaen dystiolaeth Cymru. Pan fydd pysgotwyr a chapeiniaid wedi cyfrannu at raglenni ymchwil Llywodraeth Cymru maent yn derbyn tâl teg. Rydym yn bwriadu cynnal neu gynyddu nifer pysgotwyr Cymru sy'n cyfrannu at waith casglu data, pan fydd safonau gwyddonol yn caniatáu hynny.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn cynnwys strategaethau a thargedau clir ar gyfer lleihau sbwriel môr.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd heddiw yn nodi'r canlynol: "Mae'r JFS yn ddogfen polisi strategol, sy'n gosod y fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer sicrhau y rheolir pysgodfeydd ledled y DU mewn modd cynaliadwy, o fewn cyd-destun y Setliadau Datganoli a materion a gedwir yn ôl. Bwriad y JFS yw amlinellu polisiâu pysgodfeydd y DU ar lefel uchel, ac mae'n cynnwys polisiâu sbwriel môr strategol. Bydd pob Awdurdod Polisi Pysgodfeydd wedyn yn darparu rhagor o fanylion ar eu gwahanol polisiâu pysgodfeydd sylfaenol maes o law, gan gynnwys y graddau y byddai'r polisiâu hyn yn cyflawni neu'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn y Ddeddf".

Mae'r JFS yn amlinellu ein hymrwymiad i leihau sbwriel môl ac i gefnogi'r diwydiant i leihau ei ôl troed amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, ar lefel ddomestig a rhyngwladol, i leihau sbwriel môr, ac yn ddiweddar mae wedi cefnogi OSPAR i ddatblygu Cynllun Gweithredu Rhanbarthol ar gyfer Sbwriel Môr, yn ogystal â pharhau i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru ar Sbwriel Môr. I gefnogi'r gwaith o weithredu'r rhain, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydgyssylltu'r Bartneriaeth Moroedd Glân ac i gydweithio ag arbenigwyr sbwriel môr ac aelodau o'r diwydiant pysgota, gan gydnabod eu pwysigrwydd wrth gyflawni'r targed hwn yn y JFS.

Mae'r JFS yn gysylltiedig â'r Strategaeth Forol, sy'n cynnwys targed cyffredinol ar gyfer lleihau sbwriel môr gweladwy, gan gynnwys ar y traeth, ar wyneb y môr ac ar wely'r môr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig, yn ogystal â gweithio'n rhyngwladol drwy OSPAR i ddatblygu targedau y gellir eu mesur sy'n addas ar gyfer sbwriel môr, nid ar gyfer y DU yn unig, gan gydnabod natur symudol sbwriel.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu strategaeth glir sy'n nodi sut y bydd yn annog arloesi ym maes dylunio offer, cefnogi'r gwaith o gasglu offer a gollwyd, a hwyluso'r gwaith o waredu ac ailgylchu offer pysgota mewn porthladdoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rwy'n cytuno y bydd yn bwysig amlinellu'r ffordd rydym yn annog arloesi ym maes dylunio offer, cefnogi'r gwaith o gasglu offer a gollwyd a hwyluso'r gwaith o waredu ac ailgylchu offer pysgota mewn porthladdoedd. I'r perwyl hwnnw, mae Gweinidogion Cymru, drwy'r

Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, wedi cyflwyno mesurau rheoli ar gyfer casglu ac ailgylchu offer pysgota.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phob Gweinyddiaeth y DU i nodi opsiynau fel cynllun EPR (cyfrifoldeb estynedig i gynhyrchwyr) ac opsiynau anneddfwriaethol eraill. Mae [adroddiad](#) wedi cael ei gyhoeddi ar y cyd gan DEFRA a'r Llywodraethau Datganoledig yn archwilio'r gwahanol opsiynau polisi i'w defnyddio ar lefel y DU. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r ffrwd wastraff ar gyfer offer pysgota, o'u prynu i'w waredu. Er nad wy'n anghytuno â'r argymhelliad, er mwyn ei weithredu'n llawn bydd angen i Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig weithredu ar y cyd.

Mae Cymru eisoes wedi lansio cynllun ar gyfer ailgylchu offer pysgota ar ddiwedd ei oes mewn nifer o borthladdoedd a harbwrs, yn dilyn cynllun peilot yn 2021. Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny ar lefel genedlaethol. Y porthladdoedd sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd yw Conwy, Amlwch, Caergybi, Aberteifi, Aberdaugleddau ac Abertawe, gyda'r bwriad o ehangu'r cynllun i gynnwys porthladdoedd eraill. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i'r diwydiant ailgylchu plastigau caled fel potiau cregyn moch, bwiau a chewyll pysgod, yn ogystal â rhwydi pysgota.

Yn 2021 cafodd 1.2 tunnell o offer pysgota ar ddiwedd ei oes ei gasglu o'r chwe phorthladd sy'n cymryd rhan, a disgwylir adroddiad cyn bo hir Mae'r Bartneriaeth Moroedd Glân yn gweithio i gynyddu capasiti'r cynllun i gynnwys sbwriel môr ac ynddo offer pysgota ar safleoedd yng ngogledd a de Cymru. Er bod y cynllun hwn wedi gweld llwyddiannau, rwy'n cydnabod nad yw'r holl fathau o offer pysgota'n cael eu derbyn, ac mae angen inni archwilio sut y gallwn hwyluso'r gwaith o'u gwaredu a'u hailgylchu yn ein porthladdoedd, drwy ragor o ymchwil ac arloesi.

Mae'n bosibl y gallai Cynllun Môr a Physgodfeydd ddarparu rhagor o ymyriadau, gan ddatblygu rowndiau cyllido penodol yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion y grwpiau a fydd yn olynu Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru i'r Aelodau. Dylai hyn gynnwys cylchoedd gwaith, aelodaeth, cylch gorchwyl a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y grwpiau'n gynrychiadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Cadeiriais drafodaeth yng nghyfarfod cychwynnol y Grŵp Cyngori Gweinidogion newydd ar gyfer Pysgodfeydd Cymru ar 14 Gorffennaf. Mae cyfarfod arall wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd, a bydd y grŵp yn parhau i gwrdd bob chwarter.

Bydd y grŵp yn rhoi cyngor i weinidogion a swyddogion ar faterion strategol ehangach mewn perthynas â physgodfeydd. Pan sefydlais y grŵp, roeddwn yn ymwybodol o'r angen iddo fod yn gynrychiadol; mae'r aelodaeth yn ehangach na'r grŵp blaenorol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu.

Cafodd papur yn amlinellu'r Cylch Gorchwyl drafft ei drafod yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Bydd fersiynau eraill o'r Cylch Gorchwyl yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf, a byddwn yn rhannu'r fersiwn derfynol â'r Pwyllgor pan fydd wedi cael ei gymeradwyo.

Argymhelliad 7

Rhaid i Lywodraeth Cymru fodloni'r Pwyllgor bod y mater o arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota wedi cael ei ddatrys yn llawn. Yn benodol, rhaid i'r Gweinidog sicrhau bod manylion y cytundeb y daethpwyd iddo â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion sy'n ymwneud ag arfer y pŵer ar gael i Aelodau o'r Senedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae sefydlu'r Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd yn darparu cyfrwng clir a chadarn ar gyfer cyflawni swyddogaethau pysgodfeydd ledled y DU a gweithio gyda gweinyddiaethau eraill. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Fframwaith yn ein rhwymo i ddilyn yr egwyddorion canlynol: bod Rheoli Pysgodfeydd yn faes datganoledig, Parchu ein Gilydd, Rhannu Cyfrifoldeb; Rhannu Gwybodaeth; Datrys Anghydfodau.

Yn ogystal â'r egwyddorion lefel uchel hyn, a rhagor o fanylion ynghylch gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd a rheoli anghydfodau, mae'r Memorandwm hefyd yn nodi y bydd Cytundebau Gweithredol yn cael eu datblygu. Bydd y Cytundebau Gweithredol hyn yn ddogfennau busnes fel arfer sy'n amlinellu sut bydd yr Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion penodol mewn perthynas â rheoli pysgodfeydd. Y cytundebau hyn fydd y lle priodol ar gyfer nodi manylion defnyddio adran 23 (y pŵer i bennu cyfleoedd pysgota) a'r gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori. Byddaf yn hapus i rannu'r Cytundebau Gweithredol â'r Pwyllgor ar ôl iddynt gael eu datblygu.